Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 26 Calan 2014



*Ni flinem ar Ei foliannu – o'i gael*
*Yn fab gwyn o deulu;*
*Petrusem, petai'r Iesu*
*Yntau'n dod yn blentyn du.*

*Annwyl ffrindiau,*

Mae'n hen, hen gwestiwn. Beth petai'r Iesu'n dychwelyd i'r byd y Nadolig hwn? Gallaf ddychmygu y câi gyhoeddusrwydd mawr. Byddai'r hanes i gyd ar dudalennau blaen y papurau a sôn am ddiwygiad yn y tir unwaith eto. Siawns na fyddai'r tyrfaoedd yn ei heglu hi yn eu miloedd i'r Wembley Arena, neu i Stadiwm y Mileniwm, i wrando arno … llond bysiau o Geredigion … trenau arbennig o Aberystwyth. Deuai'r Iesu'n enwog dros nos, yn *instant celebrity,* ar gyfrif ei enw da ar hyd y canrifoedd.

Mae llawer i'w ddweud dros y fath dybiaeth, oherwydd oes y cynnwrf a'r *hype* yw hi heddiw. Eir ati'n barhaus i wario arian diddiwedd ar greu *hysteria*. Meddyliwch sut y caiff sêr y byd pop ac arwyr y maes chwarae eu hyrwyddo yn y wasg a'r cyfryngau. Diau y byddai'n rhaid i'r Iesu wrth asiant, ac yntau'n cael ei ddilyn yn barhaus gan gamerâu teledu, gohebwyr a chyhoeddwyr llyfrau. Ai dyna fyddai'r sefyllfa? Na, dydw i ddim yn meddwl rywsut, oherwydd ni fyddai'r Iesu heddiw yn wahanol i'r Un a ddaeth i'r byd ddwy fil o flynyddoedd yn ôl: 'Iesu Grist, yr un ydyw ddoe a heddiw ac am byth.' (Hebreaid 13:8)

Felly, sut ddeuai'r Iesu i'r byd y Nadolig hwn?

**Yn gyntaf, byddai'n siŵr o ddod i mewn drwy ddrws isel.** Nid yn y palas brenhinol y ganwyd Iesu, ond yn stabl yr anifeiliaid; nid yn fab i dywysoges, ond yn blentyn i forwyn dlawd. A phan ystyriwn fod Palesteina yn y ganrif gyntaf yn un o daleithiau mwyaf anghysbell yr Ymerodraeth Rufeinig, oni fyddai'n rhesymol meddwl mai yn un o wledydd tlawd y Trydydd Byd y câi'r Iesu ei eni heddiw? Ni fynnai unrhyw gyhoeddusrwydd pan oedd ar y ddaear. Sylwedd yn hytrach na steil oedd ei arwyddlun; i*ntegrity* ac nid *image* oedd ei gymhelliad. Doedd *spin talk* neu *sales pitch* ddim yn rhywbeth a goleddai. Yn wir, yr unig beth a ddeisyfai'r Iesu gan ei ganlynwyr oedd gronyn bach o ffydd fel y deuai pobl i gredu ynddo a'i dderbyn fel Gwaredwr personol.

**Yn ail, byddai'n siŵr o greu aflonyddwch**. Diau y byddai unbenaethiaid, rhyfelgarwyr a gwleidyddion cyfrwys y byd yn ennyn ei lid, yn ogystal â'r holl anghyfiawnderau economaidd sy'n difwyno'n hoes. Mae'r Testament Newydd yn sôn amdano'n codi ei lais yn erbyn trachwant, eithafiaeth wleidyddol ac annhegwch cymdeithasol. Am hynny, gwae unrhyw wladwriaeth heddiw sy'n argymell arfogaeth lawn ac unrhyw gyfundrefn gymdeithasol sy'n gormesu'r difreintiedig. Diau y byddai'r Iesu'n aflonyddu ar y *status quo* crefyddol hefyd. Rwy'n amau'n fawr a fyddai'n cymeradwyo enwadaeth rywsut ac o'r herwydd, efallai na châi fawr o groeso yn rhai o'n heglwysi heddiw, mwy nag a gafodd yn synagogau'r Iddew ddwy fil o flynyddoedd yn ôl!

**Yn drydydd, byddai'n siŵr o gymysgu â phobl ddifreintiedig**. Bugeiliaid oedd y rhai cyntaf i glywed am ei enedigaeth, a physgotwyr a chasglwyr trethi oedd y rhai a alwyd ganddo. *Misfits* i gyd! Tybed, felly, ai merched y nos a charidýms y strydoedd cefn fyddai trwch ei gefnogwyr heddiw ac ai'r tlodion a'r digartref, yr alcoholiaid a'r defnyddwyr cyffuriau fyddai ei gyfeillion pennaf? Os hynny, gallaf ddychmygu na fyddai'r rhan fwyaf ohonom yn dewis ei arddel. Ond ar bobl fel hwy y rhoddodd Iesu ei fryd ddwy fil o flynyddoedd yn ôl gan y gwyddai nad yr hyn y gallent hwy ei wneud iddo ef oedd yn bwysig, ond yr hyn y gallai ef ei wneud iddynt hwy. A fydd eleni'n wahanol? Ai mewn ffordd annisgwyl y daw'r Iesu i'n plith y Nadolig hwn? Sut fath o dderbyniad gaiff e tybed? Bydd yn siŵr o ddod, nid yn y cnawd fel y gwnaeth y tro cyntaf, ond yn yr Ysbryd sy'n trigo yn ei bobl. A phan ddaw, bydd yn rhaid penderfynu.

Ni flinem ar Ei foliannu – o'i gael
Yn fab gwyn o deulu;
Petrusem, petai'r Iesu
Yntau'n dod yn blentyn du.


*J Eirian Davies*




Pob bendith dros Ŵyl y Nadolig.

Yr eiddoch yng Nghrist,
Wyn Morris (Bugail)

# Tudalen y Plant







Tasgau o'r llyfr *101 o Weithgareddau'r Nadolig*, drwy garedigrwydd Cyhoeddiadau'r Gair

Anfonwch y gwaith at y Gweinidog,
drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul
os dymunwch, erbyn **31 Ionawr.**

Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

**Llongyfarchiadau i**
**Megan Fflur Lewis,**
**Ysgol Sul Pen-llwyn**
**enillydd tasg,**
**y rhifyn diwethaf.**

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parch Wyn Morris,***
***Berwynfa, Penrhyn-coch,***
***Aberystwyth, SY23 3EW***
***01970 820939***
***berwynfa@btinternet.com***

## *Cyhoeddiadau'r Ofalaeth*

| | |
|---|---|
| 31 Rhagfyr | Gwylnos dan arweiniad y Bugail<br>yng Nghapel y Garn am 11.30 o'r gloch |
| 7 Ionawr | Pwyllgor Cyflwyniad y Tair Gofalaeth<br>yn festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 9 Chwefror | Oedfa gomisiynu Zoe Glynne Jones,<br>Swyddog Datblygu a Hyrwyddo Gwaith Plant<br>ac Ieuenctid<br>Capel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth<br>am 10 o'r gloch |
| 2 Mawrth | Oedfa Gŵyl Ddewi'r Ofalaeth<br>yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch |

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn: www.capelygarn.org

Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

**Dymuna'r gweinidog ddiolch i eglwysi'r ofalaeth am eu parodrwydd i'w ryddhau i fynd ar gyfnod sabothol am gyfnod o chwe wythnos yn ystod misoedd Mawrth ac Ebrill 2014, fel a ganiateir gan y Cyfundeb. Mawr yw ei werthfawrogiad.**

## *Croeso i Zoe*

Sgwrs â Zoe Jones, a oedd yn arfer gweithio yng Ngholeg y Bala, ac olynydd Eleri Barder fel Swyddog Datblygu a Hyrwyddo Gwaith Plant ac Ieuenctid yng ngogledd Ceredigion.

*Sut wyt ti'n setlo a beth yw'r her fwyaf yn y swydd newydd?*

Fe ddechreuais yn y swydd ym mis Tachwedd a dwi mor ddiolchgar am y croeso cynnes rwyf wedi'i gael. Mae pawb wedi gwneud i mi deimlo'n gartrefol iawn. Rwyf wedi bod yn edrych ymlaen i ddechrau'r swydd newydd yma, a dwi wir yn edrych ymlaen i weld beth yw cynlluniau Duw ar gyfer yr ardal. Fy her yn y gwaith fydd i'r plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd ddod i weld a phrofi beth ydi gwir berthynas gyda'n Harglwydd a'n Gwaredwr.

*Beth yw dy brofiad di a'th gefndir?*

Dwi'n wreiddiol o Gricieth, ac yno roeddwn yn chwarae rhan flaenllaw yn helpu gyda phlant a phob ifanc yn y capel, ac wrth wneud hynny rhoddodd Duw angerdd mawr i mi i weithio ymhlith plant a phobl ifanc. Ar ôl mynd i goleg chweched dosbarth cefais y cyfle i fynd i wneud blwyddyn gap yng Ngholeg y Bala, ac yna dangosodd Duw yn glir mai dyma'r cyfeiriad roedd o eisiau i mi fynd. Ar ôl y flwyddyn gap, cefais swydd fel is-reolydd Coleg y Bala a thrwy hynny cefais y cyfle i sefydlu clybiau plant ac ieuenctid, dechrau grŵp 'Ti a Fi' a dod i adnabod y trigolion lleol.

*Sut wyt ti'n gobeithio y bydd ieuenctid gogledd Ceredigion yn elwa o dy brofiad di?*

Dwi'n gobeithio y bydd yr ieuenctid yn dod i ddeall bod cael perthynas gyda Duw yn fwy na pherthynas bore Sul a bod Duw yn bresennol ym mhob rhan o'u bywydau. Hefyd, dwi am iddynt sylwi eich bod yn gallu cael hwyl yn gwneud pethau Cristnogol.

**Croeso cynnes iawn i Zoe,**
**a phob bendith iddi yn ei gwaith pwysig yn yr ardal.**

*Beth yw dy ddiddordebau di?*

Un o fy mhrif ddiddordebau (os medrwch chi alw hyn yn ddidordeb) ydi gweld ffrindiau a chael paneidiau neu fwyd allan a chael hwyl gyda'n gilydd. Dwi hefyd yn hoff iawn o ffotograffiaeth a dwi'n credu bod Duw wedi creu gwlad mor hardd i ni allu ei mwynhau. Dwi wrth fy modd yn tynnu lluniau o bethau gwahanol sy'n fy ngalluogi i gadw atgofion! Dwi hefyd yn hoff iawn o bobi ac yn mwynhau bod yn y gegin yn gwneud cacennau ac yn arbrofi.



*Pa un o'r rhain sydd orau gennyt?*

Pizza neu ginio dydd Sul?
Cinio dydd Sul

Llyfr neu DVD?
DVD

Y wlad neu'r dre?
Y dre

Sinema neu ddrama?
Sinema

Cerddoriaeth roc/pop neu glasurol?
Dwi'n hoff iawn o bob math o gerddoriaeth

X-factor neu Noson Lawen?
X-factor

Ar nos Wener, coginio neu *take-away*?
Coginio

Pêl-droed neu rygbi?
Rygbi

**Neges gan Zoe**: Os oes unrhyw beth y galla i ei wneud i helpu yn eich capeli, clybiau plant/ieuenctid neu ysgolion, mae croeso i chi gysylltu â mi: zoejones34@gmail.com

## *Nelson Mandela a'r Cymro*

Ymhlith y teyrngedau teilwng a gyflwynwyd i'r gwladweinydd nodedig adeg ei farw cyfeiriodd ambell un at ddylanwad Cristnogaeth arno, ac un yn arbennig yn sôn am ei ddyled i offeiriad o Gymru. Euthum yn ôl at ei hunangofiant ac at y bennod sy'n manylu ar ei gyfnod hirfaith ar yr ynys unig, 'Roben Island: Beginning to Hope'. Un o'r llecynnau golau oedd cael bod mewn oedfa bore Sul yn gwrando ar amrywiol bregethwyr a ddeuai yno o'r tir mawr. Roedd eu meistri creulon yn credu bod ambell ddos o grefydd yn llesol i'r carcharorion – ond crefydd, nid Cristnogaeth, oherwydd os mentrai'r pregethwr berthnasu neges yr efengyl â'r gorthrwm anwaraidd rhoddid taw arno a'i atal rhag dod yno wedyn.

Ar ôl gorfod aros yn y gell i wrando'r pregethwr anweledig ym mhen draw'r coridor am ddwy flynedd gollyngwyd y carcharorion i fuarth y tu allan i'r celloedd i gael gweld a chlywed, a chael anadlu'r awyr iach. Doedd pawb o'i gymrodyr ddim yn arddel y ffydd ond diolchent am ambell bregeth hir i ohirio dychwelyd i'r celloedd! Mae gan Mandela ddisgrifiadau diddorol o'r pregethwyr a'r Cymro sy'n cael y sylw pennaf: 'One of our first ministers was an Anglican priest by the name of Father Hughes, a gruff, burly Welshman.' Roedd wedi bod yn gaplan i'r llongau tanfor yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Ar ei ymweliad cyntaf, yn hytrach na phregethu darllenodd ddetholion o ddarllediadau Winston Churchill yn ystod y rhyfel yn ei lais bariton cyfoethog: 'We shall fight on the beaches ... we shall never surrender' a'r geiriau'n ysbrydoli'r carcharorion i ddal ati'n eofn.

Mae'r Affricanwr yn canmol pregethau ardderchog y Cymro oherwydd iddo lwyddo i gynnwys tameidiau o newyddion yn ei bregethau, a dyma enghraifft: 'Fel Pharo'r Aifft gynt mae Prifweinidog De Affrica yn amlhau milwyr. Roeddem yn canu emynau ar ddiwedd pob oedfa a chredaf fod y Tad Hughes yn dod atom yn amlach na'r lleill er mwyn ein clywed yn canu. … He brought along a portable organ (tebyg i Tom Nefyn ar sgwâr pentref a thref), and he would play for us. He praised our singing, saying that it was the only singing that matched the choirs in his native Wales.' Carwn wybod pwy oedd y Tad Hughes o'n plith ni a fu'n gymwynaswr parod i Mandela a'i gyfeillion ar gyfnod mor mor dyngedfennol yn eu hanes.



Ar ddechrau'i hunangofiant mae Mandela yn falch o gyhoeddi'i fod ar ôl ei fedyddio wedi'i fagu mewn ysgol Sul ac oedfaon yn yr Eglwys Fethodistaidd / Wesleaidd, eglwys a sefydlwyd gan genhadon. Yn ei gyfrol *Conversations With Myself* (2010), gwelir llun o'i gerdyn derbyn yn aelod yn 12 oed, sy'n cyfeirio at 1 Timotheus 6, 20–21: 'Timotheus, cadw'n ddiogel yr hyn a ymddiriedwyd i'th ofal'. Dyma sut mae Mandela yn cloi ei gyflwyniad i gyfrol 2010: 'Never forget that a saint is a sinner who keeps on trying.'

Cyfaill cefnogol i Mandela ac un a ddylanwadodd yn drwm arno (fel ar yr Archesgob Desmond Tutu) oedd y Tad Trevor Huddleston a orfodwyd i adael ei waith fel offeiriad yn Sophiatown, ardal y duon tlawd yn Johannesburg ym 1956, ar ôl gwasanaethu yno er 1944. Gwrthododd ufuddhau i orchymyn i fod yn ddistaw wrth iddo gondemnio cythreuldeb apartheid. Ei ateb i gwestiwn barnwr mewn llys a ofynnodd iddo ai gwaith offeiriad oedd collfarnu llywodraeth, oedd, 'Is it the function of a priest to remain silent in the face of injustice? 'Llwyddodd i ddod â llawysgrif ei lyfr enwog *Naught For Your Comfort* – 'The book which stirred the Conscience of the World', gydag ef.

Wrth ddiolch i Dduw am Nelson Mandela, Trevor Huddleston, Desmond Tutu a rhai tebyg iddyn nhw am weithredu'n wrol orchymyn Pedr yn Actau 5:29, 'Rhaid ufuddhau i Dduw yn hytrach nag i ddynion', gadewch i ninnau eu hefelychu drwy rym cariad anorchfygol Iesu Grist.

*W. J. Edwards*

*"Wrth i mi gerdded drwy'r drws tua'r giât a fyddai'n arwain at ryddid, oni bai fy mod yn gadael fy chwerwder a'm casineb y tu ôl i mi, gwyddwn y byddwn yn dal mewn carchar."*

## *Carol Nadolig*

O fendigedig noswyl
Pan anwyd baban Mair
A'i rwymo mewn cadachau
Yn llwch y rhastal wair.
O fendigedig wawrddydd
Pan safodd wrth y ddôr
Fugeiliaid tlawd a doethion
Yn rhythu tua'r côr.

Anrhegion coeth o'r dwyrain
Osodwyd wrth y crud
Ac wyneb pob rhyfeddod
Oleuai'r beudy clyd,
Pwy ŵyr na ddaeth hen fugail
Â chynnes baich o gnu
I'w daenu dros y baban
Na wybu gysur tŷ.

O wynfydedig feudy
Ym Mhalestina oer
Gysgodai wyrth y Duwdod
Rhag trem y rhynllyd loer,
O! cenwch glych eglwysi
Uwch dwndwr byd a'i hwyl
Cyhoeddwch mai yr Iesu
Yw anrheg fwya'r Ŵyl.

Ar fore ddydd Nadolig
Tywalltwch eto win
A'i rannu gyda'r bara
Na chollodd ddim o'i rin,
Bydd seren yn y dwyrain
Bydd cadach yn y crud
Ond nid yw'r Iesu yno,
Mae allan ar y stryd.

*Vernon Jones*

## Ionawr

*Blaenor y Mis: Erddyn James*

*I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Eddie Jenkins*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel y Garn*

**5** Miss Beti Griffiths am 10 o'r gloch
Cwrdd Gweddi Dechrau'r Flwyddyn am 5 o'r gloch
Aelodau'r Noddfa yn ymuno yn y Garn

7 Pwyllgor Cyflwyniad y Tair Gofalaeth
am 7 o'r gloch yn y festri

8 Cwrdd Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
Vernon Jones – 'O Eisteddfod i Eisteddfod'

**12** Parch Elwyn Pryse

17 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Ffurfio Llywodraeth Cymru'n Un': cip y tu ôl i'r llenni
Ceri Williams (Dolau, gynt), Caerdydd

**19** Bugail
Cymun yn oedfa'r bore

**26** Parch Ddr Terry Edwards

31 Pwyllgor Swyddogion y Garn am 7 o'r gloch

*Tydi sy'n deffro'r adar*
*i flaenu'r wawr â chân*
*O deffro ni i'th foli*
*bob dydd â chalon lân.*

## *Cyfnod Newydd Cyffrous*

Os oes unrhyw yn eich holi beth yw diben cael Pwyllgor Eglwys yng Nghapel y Garn, mae'r ateb yn syml.

Y bwriad yw ceisio ein hadfywio ni fel cymdeithas yn yr eglwys i addasu i anghenion cyfnod newydd a gwahanol iawn ei hinsawdd. Cyfathrebu yn fwy effeithiol o fewn a thu allan i'r eglwys ac ailddarganfod safle'r eglwys yn y gymuned, a hynny drwy ddulliau ychydig yn wahanol. Y nod yw symud yn hyderus a mwy mentrus i'r dyfodol. Mae'r neges a'r sylwedd yn aros ond mae angen eu gwisgo mewn dillad newydd.

Bu'r ymateb i'r ymgynghoriad gwreiddiol am syniadau a sylwadau yn niferus ac mae pob syniad a gyflwynwyd yn cael ystyriaeth deg. Mae nifer dda o aelodau hefyd wedi gwirfoddoli i fod yn rhan o'r gwaith fel aelodau o'r Pwyllgor ac o'r tri grŵp sydd wedi eu ffurfio: Addoli ac Addysgu, Eglwys a Chymdeithas, ac Adnoddau ac Eiddo.

Cafodd argymhellion cychwynnol y tri Phanel eu hystyried yn y Pwyllgor llawn ar 27 Tachwedd 2013 a phenderfynwyd yn unfrydol i symud ymlaen gyda phob un ohonynt. Mae'r gwaith felly yn cychwyn o ddifri ac mae'r rhain yn cynnwys elfennau yn ymwneud â natur ein haddoliad, anghenion a defnydd o'n hadnoddau sy'n cynnwys defnydd helaethach o dechnoleg, ac adeiladu ar y gwaith cymdeithasol a dyngarol rhagorol sy'n rhan o draddodiad y capel. Daw mwy o wybodaeth am bob un o'r rhain wrth i'r syniadau ddatblygu.

Nid rhywbeth ar gyfer aelodau'r Pwyllgor yn unig yw. Mae'r cyfan yn perthyn i bob un o ddarllenwyr *Gair o'r Garn*.

Ymlaen i'r dyfodol!

*Wynne Melville Jones*

Llongyfarchiadau calonnog:

i James a Kate, Tŷ Capel, ar enedigaeth mab bach, Osian, ar 8 Hydref;

i Elystan Morgan ar ennill Gwobr Cyfraniad Oes yng Ngwobrau Gwleidydd y Flwyddyn 2013.

# Chwefror

*Blaenor y Mis: Vernon Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: D Bryn Lloyd / D Elystan Morgan*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel Noddfa*

**2** Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa
Oedfa'r hwyr yn y Garn dan arweiniad Mr Huw Roderick

5 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
Mr Neville Jones – 'Hen arferion y Banc'

**9** Oedfa gomisiynu Zoe Glynne Jones, Swyddog Datblygu a Hyrwyddo Gwaith Plant ac Ieuenctid
Capel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth, am 10 o'r gloch

**16** Bugail
Oedfa gymun yn y bore
Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

21 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Byd Llên: pori yma ac acw' – Gwerfyl Pierce Jones

**23** Parch W J Edwards

25 Pwyllgor Eglwys am 7 o'r gloch




Trefnodd y Pwyllgor Eglwys i roi tair baner tu allan i'r capel dros gyfnod y Nadolig. Oedden nhw'n effeithiol? Anfonwch air at y golygyddion gyda'ch sylwadau.

# Mawrth

*Blaenor y Mis: Eddie Jenkins*

*I gyfarch wrth y drysau: Dewi G Hughes / Marian B Hughes*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel y Garn*

**2** Oedfa Gŵyl Ddewi'r Ofalaeth yn y Garn am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch Richard Lewis

5 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
Catherine Young – 'Symud'

**9** Dr Gwyn Davies

**16** Bugail
Cymun yn oedfa'r bore

21 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Eisteddfod fach ni' – dan ofal Arwel 'Rocet' Jones

**23** Parch J E Wynne Davies

**30** Parch Aled Edwards



Neges Dewi Sant: 'Byddwch
lawen a chadwch eich ffydd
a'ch cred,
a gwnewch y pethau bychain
a glywsoch ac a welsoch
gennyf fi.'

## *Y Nadolig Cyntaf*

*Maredudd ap Huw*

Y dyddiau hyn, mae modd i ymwelwyr â Llyfrgell Genedlaethol Cymru weld ymddangosiad cyntaf stori'r Geni yn yr iaith Gymraeg.

Ers mis Hydref, bu ymwelwyr ag Aberystwyth yn mwynhau'r cyfle prin i weld trysorau cynnar llawysgrifol y Gymraeg ochr yn ochr â'i gilydd am y tro cyntaf, a hynny yn arddangosfa'r *4 Llyfr: Eiconau Cymraeg Ynghyd*. Seren y sioe yw Llyfr Coch Hergest, sydd ar fenthyg o Goleg Iesu Rhydychen, ac sy'n cynnwys trysorau llenyddol seciwlar y Gymraeg, gan gynnwys Canu Llywarch Hen a'r Mabinogi. Ysgrifennwyd rhannau helaeth o Lyfr Coch Hergest rhwng tua 1382 a 1410 gan ŵr o'r enw Hywel Fychan ap Hywel Goch o Fuellt, a hynny ar gyfer noddwr o'r enw Hopcyn ap Tomas ab Einion o Ynysforgan, ger Abertawe. Ond nid dyna'r unig Lyfr Coch sydd yn arddangosfa'r Llyfrgell Genedlaethol.

Lluniwyd Llyfr Coch Talgarth yntau ar drothwy Gwrthryfel Glyndŵr, eto gan Hywel Fychan, ond y tro hwn ar gyfer Rhys ap Thomas ab Einion, brawd i noddwr Llyfr Coch Hergest. Testunau crefyddol a geir yn y gyfrol femrwn o Dalgarth, ac mae'n llai o faint na'i chyfnither fawreddog o Hengwrt. Ar gyfer arddangosfa'r *4 Llyfr*, agorwyd Llyfr Coch Talgarth i ddangos cyfieithiad i'r Gymraeg o hanes ymweliad Gabriel â Mair, hanes a gofnodir ym mhennod gyntaf yr Efengyl yn ôl Luc. Credir mai dyma'r copi cynharaf a erys o hanes y Geni yn y Gymraeg, wedi ei ysgrifennu ymron i ddwy ganrif cyn cyhoeddi Testament Salesbury a Beibl William Morgan.

Gobaith y Llyfrgell Genedlaethol yw y bydd ymwelwyr â'r arddangosfa yn ceisio darllen geiriau'r llawysgrif, ac i'w cynorthwyo i wneud hynny, argreffir y testun isod (wedi ei ddiweddaru rhyw ychydig).

*Rhybudd Gabriel at Fair, pan ddisgynnodd Iesu Grist yn ei bru*

Fe anfonwyd Gabriel angel, gan Dduw, i ddinas Galilea, yr hwn oedd ei enw Nazareth, at wyry briod i ŵr, yr hwn oedd ei enw Joseff o lwyth Dafydd (sef yw hynny o dylwyth Dafydd). Ac enw y forwyn oedd Mair. A myned i mewn a oruc [wnaeth] yr angel ati, a dywedyd wrthi, "Henffych well Fair, gyflawn o ras, y mae yr Arglwydd gyda thi. Bendigedig wyt ti ymhlith y gwragedd."

Fal y ciglau [clywodd] hi yr ymadrodd hwnnw, hithau a gynhyrfodd yn ei ymadrodd ef, ac a feddyliodd pa ryw annerch oedd honno? A'r angel a ddywedodd wrthi, "Nac ofna di Fair. Ti a gefaist ras gan Dduw. A llyma yr arfolli [derbyni] di fab, a thi a elwi ei enw Iesu, yr hwn a fydd mawr. A Mab y Goruchaf y'i gelwir, ac ef a rydd yr Arglwydd Dduw iddo eisteddfa Dafydd ei dad, ac a wladycha yn nhŷ Iago yn dragywydd. Ac ni bydd diwedd ar ei Deyrnas ef."

## *Cystadleuaeth Cacen y Beibl*



Llongyfarchiadau i Delyth Davies, Pen-llwyn, enillydd Cystadleuaeth 'Cacen y Beibl' yn y rhifyn diwethaf. Diolch i Dwysli Peleg-Williams am osod y dasg ac am wneud y gacen a rannwyd ar ddiwedd Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ofalaeth. Os hoffech gael copi o'r atebion i'r dasg, cysylltwch â'r golygyddion.

### *Iesu, yr Ysglyfaeth Maddeugar*

Cyflwyno (neu ailfeddwl) Cristnogaeth,
ar gyfer oedolion sy'n holi cwestiynau, ac sy eisiau deall yn well

Pum sesiwn agoriadol i gwrs wedi'i lunio gan James Alison,
yn y Morlan dan nawdd Cristnogaeth21

12, 26 Chwefror; 12, 26 Mawrth a 9 Ebrill: 7.30–9.30 p.m.

Golwg drwy sbectol newydd ar sut mae'r ffydd yn gweithio.
I gadarnhau ffydd, dileu camddeall, i oresgyn hen ddadleuon a chyflwyno dehongliad rhesymol a ffydd i gyfnod anodd

Arweinir y cwrs gan
y Parch Ganon Enid R Morgan

Croeso i bawb



Cynhaliwyd bore Paned a Chroeso yn Festri'r Garn fore Sadwrn, 30 Tachwedd – cyfle i ddod ynghyd ar ddechrau'r Adfent ac i dderbyn rhoddion o fwyd at Fanc Bwyd Stordy'r Jiwbilî, a chyfraniadau ariannol i'w rhannu'n gyfartal rhwng y Stordy a Chronfa Argyfwng y Philipinau. Dechreuwyd y gyfeillach gyda'r Gweinidog yn torri'r Gacen Adfent, cacen a oedd yn symbol o ysbryd rhoi a rhannu y Nadolig. Diolchwyd yn gynnes iawn i Gartref Tregerddan am ei darparu. Roedd Iestyn Hughes wedi paratoi pos lluniau heriol, a enynnodd gryn drafodaeth dros y paneidiau; bwrdd Vernon ddaeth i'r brig. Cafwyd bore hwylus. Codwyd symiau anrhydeddus at y ddwy elusen a bocseidi o fwyd i'r llwm eu byd.

## Gair o Ben-llwyn

Dyma ni ar drothwy Gŵyl y Geni, neu Ŵyl y Goleuni a hefyd ddechrau Blwyddyn Newydd arall. Mor braf yw dechreuad newydd, dalen lan a chyfle newydd arall. Diolchwn am y gynhaliaeth a'r gofal a fu trosom trwy gydol y flwyddyn a aeth heibio:

Mae'n wir fod ambell neges
na fedr geiriau iaith
ei chludo yn ddiogel
i'r man ar ben ei thaith.

Pan ddaw'r neges atat
cei weld, o'i hagor hi,
fod ynddi bennod newydd
a lle i'th stori di.

Y stori sy'n oleuni,
yr hanes sydd yn daith,
y geiriau sydd yn gariad,
y neges sydd yn waith.

Rydym wedi bod dan ofalaeth ein Gweinidog am bron i flwyddyn bellach, tybed a ydym wedi manteisio ar bob cyfle i'w gefnogi ym mhob agwedd o waith yr Eglwys? Mae'r oedfaon ar y Sul wedi bod yn rhai bendithiol dros ben, ac rydym wedi dysgu llawer iawn dan ei arweinyddiaeth yn y dosbarthiadau Beiblaidd. Mae'r gymdeithas o fewn yr Eglwys yn un felys a chynnes, a'n gweddi yw y bydd i lawer mwy o aelodau deimlo ar eu calonnau fel ymuno yn y moliant a'r addoliad.

Mae plant yr ysgol Sul yn brysur yn paratoi eu gwasanaeth Nadolig eu hunain, yn frwdfrydig ac awyddus i'r rannu â chwi ar 22 Rhagfyr am 10 o'r gloch y bore. Dewch i'w cefnogi gan mai hwy fydd ein dyfodol.

Bwriadwn dderbyn rhoddion ein haelodau ar 29 Rhagfyr tuag at Apêl Pobl y Philipinau, y bobl hynny a effeithiwyd mor ofnadwy gan stormydd erchyll ychydig yn ôl: 'Yn gymaint â'i wneuthur ohonoch i un o'r rhai hyn, fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch' – geiriau a ddaw yn glir i'r meddwl wrth i ni gael ein syfrdanu gan luniau ac adroddiadau cyson y wasg a ddaw atom i'n cartrefi diddos a chysurus.

Dymunwn, fel eglwys, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i aelodau'r ofalaeth gyfan, heb anghofio ein Gweinidog parchus a'i briod hawddgar.

***Taith Gerdded yr Ofalaeth***



Dydd Sadwrn, 12 Hydref, ymunodd tuag ugain o gerddwyr brwd ar daith gerdded yr ofalaeth. Dilwyn a Carys Jones oedd arweinwyr y daith eto eleni, a’r tro hwn cawsom ein tywys ‘O Lan i Lan’, sef o Langelynnin i Lanegryn, Meirionnydd.

Ar ddechrau’r daith, cafwyd cyfle i ymweld ag eglwys hynafol Llangelynnin, sydd yn agos iawn at y môr, a bedd Abram Wood, y sipsi enwog, yn y fynwent wrth borth yr eglwys.

Yna, aethpwyd ati’n bwyllog i ddringo’r bryn serth uwchben yr eglwys ac roedd y golygfeydd godidog o’r môr a’r arfordir ar y top yn sicr yn werth yr ymdrech


Ymlaen ar hyd y llwybrau uwchben dyffryn Dysynni, gan aros wrth un o’r murddunnod am damaid o ginio a sgwrs, cyn disgyn i lawr at Eglwys Llanegryn. Trysor mwyaf yr eglwys honno yw’r sgrin bren gerfiedig, sydd yn wir yn werth ei gweld. Yn ôl yr hanes, cafodd ei chludo yno gan y mynachod o Abaty Cymer.

Yna, cerddodd y criw yn hamddenol yn ôl tua Llangelynnin, gan fwynhau’r gwmnïaeth ddifyr ar y ffordd. Diolch i Dilwyn a Carys am drefnu, a hefyd am yr wybodaeth ddifyr am fannau a phethau diddorol ar y daith.



Daeth aelodau Rehoboth, Taliesin, at ei gilydd nos Sul, 5 Hydref, i ffarwelio â Haydn a Phyllis Ellis, deiliaid y tŷ capel, Manteg, ers saith ar hugain o flynyddoedd. Ar ôl yr oedfa, roedd te yn y festri a chyfle i bawb ddiolch i'r ddau am eu cymwynasgarwch a'u cydweithrediad parod bob amser. Dymunwyd pob bendith i'r ddau yn eu cartref newydd yn Llanilar.

Yn y llun gwelir rhai o flaenoriaid Rehoboth gyda'r Parchedig Wyn Morris yn cyflwyno tysteb i'r ddau.




Cyfrol newydd o ysgrifau gan Harri Parri yn cynnwys portreadau o nifer o bobl a wnaeth argraff arno, yn eu plith y Tad Dewi, mynach yn Iwerddon; James Lusted, a roddodd y gorau i'w waith gyda'r heddlu i fynd i astudio Arweinyddiaeth Fugeiliol; Mari Lloyd-Williams, Athro Gofal Lliniarol ym Mhrifysgol Lerpwl, a'r athrylithgar Gareth Maelor.

Cyhoeddwyd gan Wasg y Bwthyn; pris: £9.95

**Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth**

Ar gychwyn tymor newydd, estynnodd y Llywydd, Eiriona Metcalfe, groeso i'r aelodau i'r cyfarfod yn festri Capel Rehoboth, Taliesin, ar 10 Medi. Ein gwraig wadd am y prynhawn oedd Mrs Megan Hayes, Aberaeron. Cafodd Megan ei geni a'i magu yn Llundain gan i'w rhieni ymfudo yno o dde sir Aberteifi, a chawsom ganddi hanes ei magwraeth yn y ddinas. Cychwynnodd ei rhieni eu bywyd priodasol yn Llundain drwy fynd i weithio gyda theuluoedd Cymraeg y ddinas cyn iddynt lwyddo i rentu busnes yn Shoreditch i ddechrau, yna symud i Clapham ac wedyn i Richmond. Codwyd Megan ar aelwyd uniaith Gymraeg, lle roedd y morynion yn ogystal yn hanu o Geredigion. Drwy gyfrwng sleidiau gwelwyd lluniau o rai o siopau'r Cymry yn Llundain pan oeddent yn gwerthu a dosbarthu llaeth ar hyd strydoedd y ddinas. Roedd pawb wedi mwynhau clywed hanes Megan a'r Cymry eraill gan fod bron pob un a oedd yn bresennol â pherthynas neu deulu a fu'n byw yn Llundain. Talwyd y diolchiadau gan Ann Jenkins. Myfanwy Rowlands a Mai Leeding oedd yng ngofal y te.


Roedd y festri yn llawn ar 8 Hydref pan groesawyd y Prifardd Idris Reynolds i'n hannerch. Offrymwyd gweddi gan y Parchedig Wyn Morris i ddechrau'r cyfarfod. 'Atgofion am Dic Jones' oedd testun sgwrs Idris Reynolds, ac fel cyfaill iddo, cafwyd ganddo ddarlun cyflawn o fywyd Dic Jones o'i eni yn Nhre'r-ddôl yn 1934 hyd ei farwolaeth yn 2009. Gan fod traddodiad llenyddol cryf yn bodoli yn ardal Aberteifi, fe ddysgodd Dic Jones y grefft o gynganeddu gan Alun y Cilie. Enillodd gadeiriau yn Eisteddfodau'r Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol, a chyhoeddwyd sawl cyfrol o'i waith. Yn ogystal ag etifeddu'r ddawn farddonol gan ei fam, etifeddodd hefyd ddawn gerddorol gan ei dad, a bu'n canu gyda chôr lleol ar hyd ei oes. Yn ystod y prynhawn dyfynnwyd llawer o waith Dic Jones, gŵr a oedd yn Archdderwydd Cymru adeg ei farwolaeth a gŵr a roddodd gymaint nid yn unig i'w fro ond i Gymru gyfan. Talwyd y diolchiadau gan Myfanwy Rowlands, cyfnither i Dic Jones, ac adroddodd hithau lawer o'i hatgofion amdano, ac roedd pawb yn gytûn i ni gael prynhawn pleserus iawn. Olwen Rowlands a Megan Brickley oedd yng ngofal y te.

Cafwyd prynhawn difyr yn y cyfarfod ar 12 Tachwedd, pan groesawyd Lyn Ebenezer, Pontrhydfendigaid, atom. Offrymwyd gweddi gan y Parchedig Wyn Morris i ddechrau'r cyfarfod. Cafwyd prynhawn o chwerthin wrth i Lyn adrodd storïau difyr am gymeriadau ardal ei blentyndod, a'r dywediadau doniol a adroddwyd ganddynt. Diolchwyd iddo am brynhawn pleserus iawn gan Mai Leeding. Non Griffiths, Eirlys Jones a Daphne Farthing oedd yng ngofal y te.

Cafwyd cyngerdd ardderchog yng Nghapel y Garn nos Sul, 15 Rhagfyr, yng nghwmni nifer o artistiaid lleol. Trefnwyd y noson gan Alan Wynne Jones, a derbyniwyd rhoddion tuag at Apêl y Philipinau.












## *Gwasanaeth Nadolig Plant Ysgol Sul Unedig Bow Street*




Cynhaliwyd y gwasanaeth eleni yng Nghapel Noddfa fore Sul, 15 Rhagfyr, a chyflwynodd y plant, rhieni ac athrawon yr ysgol Sul stori annwyl Papa Panov. Treuliodd yr hen grydd Nadolig unig yn disgwyl i'r Iesu ddod i ymweld ag ef fel a ddigwyddodd yn ei freuddwyd. Ond hen ddyn yn brwsio'r stryd a merch ifanc, dlawd a'i baban oedd ei unig ymwelwyr y diwrnod hwnnw. Rhannodd Papa Panov ei fwyd â'r hen ddyn a rhoi pâr o esgidiau i blentyn y ferch dlawd – a dangos gwir ystyr stori'r Nadolig.



Yn dilyn y gwasanaeth, cafwyd parti yn y festri – ac ymweliad gan Siôn Corn.

## *Ionawr 2004*

Mae'r flwyddyn yn ei henaint erbyn hyn,
a'r dydd 'di mestyn mwy na dau gam ceiliog,
ar hyd ffordd arall, aeth y doethion syn
yn ôl i graffu ar y nos serennog;
a thrwy'r anialwch maith, o lech i lwyn,
aeth tri ar daith, rhag dial enbyd Herod,
nes cyrraedd tro annisgwyl wnaiff eu dwyn
yn ôl i Balesteina rhyw ddiwrnod:
dyna 'di trefn tymhorau, llanw a thrai,
ymadael a dychwelyd, mynd a dod,
ac am fod tymor arall, fwy neu lai,
yn dweud mai'r hyn a fu yw'r hyn sy' i fod,
aeth un fu 'Methlehem yn cadw'r hedd
adre'n ôl i Gaersalem i agor bedd.

*Iwan Llwyd*

Dyfynnwyd y gerdd o'r gyfrol *Blwyddyn Gron: barddoniaeth ddefnyddiol ar gyfer dathliadau'r flwyddyn*; golygwyd gan Sian Northey. Cyhoeddwyd gan Wasg Carreg Gwalch; pris £12 (clawr caled)

***Swyddogion yr Ofalaeth***

*Cadeirydd*: Owen Jenkins, Gwedd Ynys, Taliesin
Is-gadeirydd:Heulwen Lewis, Pen-llwyn
*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH; glannant@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **9 Mawrth:**

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
✆01970 828026
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
✆01970 828662
marian_hughes@btinternet.com